| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **8 RHAGFYR 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – MCDONALD'S RESTAURANTS, CANOLFAN SIOPA BRITANNIA, FFORDD CAERNARFON, BANGOR LL57 4SU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo McDonald's Restaurants, Canolfan Siopa Britannia, Ffordd Caernarfon, Bangor gan PGL Enterprises Limited 100 Stryd Fawr, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Cyflwynir y cais ar ran yr ymgeisydd gan gwmni Shoosmiths sydd yn gweithredu fel cyfreithwyr ac asiant awdurdodedig ar ran yr ymgeisydd
Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos yn unig ar, ac oddi ar yr eiddo.

Mae'r ymgeisydd yn manylu ar yr atodlen weithredu arfaethedig ar y camau y bwriedir eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sydd yn cynnwys

- Gweithredu system Teledu Cylch Cyfyng
- Rheolwyr shifftiau yn cael eu hyfforddi mewn materion diogelwch a gwarchod
- Cydymffurfio a gofynion rheolaethol o safbwynt diogewlch tan, iechyd a diogelwch a diogelwch bwyd.
- Holl staff i dderbyn hyfforddiant diogelwch cynhwysfawr
- Polisi dim cario cynhwysyddion agored yn cynnwys alcohol
- Pwyntiau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer y staff
- Patrôl sbwriel o gwmpas tu allan i'r bwyty
- Mesurau mewn lle i reoli swn – drysau yn cau eu hunain, a cwsmeriaid yn cael eu hanog i adael yn dawel.

Gweler y manylion llawn yn y ffurflen gais mewn perthynas â'r camau a bwriedir eu cymryd gan yr ymgeisydd i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcanion trwyddedu.

Gofynnir am oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

| **Trwydded Presenol/Current Licence** | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:**<br>Dydd Llun/Monday 06:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 06:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 06:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 06:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 06:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 06:00-23:30<br>Dydd Sul/Sunday 06:00-23:00<br><br>**Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments** Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-23:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-23:30 | **Oriau Agor / Opening Hours:**<br>Dydd Llun/Monday 06:00-02:00*<br>Dydd Mawrth/Tuesday 06:00-02:00*<br>Dydd Mercher/Wednesday 06:00-02:00*<br>Dydd Iau/Thursday 06:00-02:00*<br>Dydd Gwener/Friday 06:00-02:00*<br>Dydd Sadwrn/Saturday 06:00-02:00*<br>Dydd Sul/Sunday 06:00-02:00*<br><br>**Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments**<br>Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors<br>Dydd Llun/Monday – Ddydd Sul/Sunday 23:00 – 02:00* |

***Noder** fod y 'drive-thru' yn cau am 24:00

**YMGYNGHORIADAU**

Ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd yr ymatebion canlynol -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Cyngor Dinas Bangor | 1 e bost gwrthwynebiad |
| Preswylydd lleol | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | E Bost - dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr, dim gwrthwynebiad |

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD**

**Cyngor Dinas Bangor**
Derbyniwyd e bost gan Glerc y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Nodwyd fod yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn sŵn oddi wrth gwsmeriaid a cheir yn hwyr yn y nos gan amharu a'r breswylwyr cyfagos. Datganwyd pryder hefyd y byddai'r ymestyniad mewn oriau'n arwain at gynnydd mewn sbwriel ar y Stryd.

**Preswylydd lleol**
Derbyniwyd llythyr yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus, a phryderon am ymddygiad gwrth gymdeithasol. Nodir gan y preswylydd eu bod eisoes yn cael eu amharu gan swn cerddoriaeth uchel, a swn ceir mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig yr eiddo.

Gweler manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.